Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhiwbeina
# Festri Bethel
# Maes Y Deri
# Rhiwbeina
# Caerdydd
# CF14 6JJ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Rhiwbeina yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae’n cael ei gynnal am bum bore’r wythnos yn festri Capel Bethel Rhiwbeina. Mae gan y lleoliad bum aelod o staff.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu cymryd hyd at 24 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd un plentyn yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o’r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae’r lleiafrif yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Ebrill 2009. Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2013. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda
- addysgu effeithiol yn herio'r plant i wella'u gwaith
- asesiadau yn symud plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol
- gofal diwyd a thyner yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus
- amgylchedd dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- adnoddau o ansawdd uchel ar gael i bob un plentyn
- perthnasoedd cadarn rhwng oedolion a phlant
- staff yn cydweithio a chanolbwyntio ar wella safonau'r plant yn ddiwyd
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol iawn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i waith y lleoliad
- systemau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth
- cefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli
- perthynas effeithiol gyda'r rhieni a'r ysgolion lleol
- adnoddau o ansawdd uchel ar gael i bob un plentyn
- defnydd synhwyrol o'r cyllid i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth, yr adeilad a'r ardal allanol

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Sicrhau bod adroddiad hunanarfarnu'r lleoliad yn adnabod y meysydd i'w datblygu yn ddigon clir a miniog

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu'n targedu anghenion a diddordebau'r plant yn bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau hyblyg a chyffrous ac yn ysgogi a chymell y plant i ddysgu'n ymarferol a chreadigol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn ddeallus, er enghraifft trwy adael iddynt ddringo cyfarpar anturus, gyrru beiciau lawr llethr wrth ymyl y gerddi a pheintio'n annibynnol ar îsl.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'n drwyadl. Maent yn trafod asesiadau plant unigol mewn cyfarfodydd wythnosol, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Mae'r plant yn cynnig eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at eu brwdfrydedd dyddiol wrth ddysgu trwy chwarae.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i hoelio siapiau gwahanol ar fwrdd gyda mwrthwl, amcangyfrif sawl bricsen sy'n creu tŵr ac ymarfer llythrennau mewn hambwrdd llawn halen. Mae gweithgareddau o'r math hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Mae darpariaeth profiadau dysgu yn ysgogol ac yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn dysgu'r plant. Maent yn cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda phibellau dŵr a chwarae gwahanol offerynnau mewn cerddorfa.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg o safon uchel. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn gywir ac yn cefnogi'r plant sy'n dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl trwy weithgareddau ystyrlon gyda grwpiau penodol o blant a arweinir gan weithwyr allweddol. Mae hyn yn effeithiol iawn wrth i blant gael eu herio a'u holi gan weithiwr allweddol wrth ymateb i lyfrau cyn bwyta'u byrbrydau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n

llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, gwneud cawl o gynnyrch yr ardd a phobi picau ar y maen a bara.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio camerâu, teganau electronig a thiliau. Fodd bynnag, nid yw’r plant yn cael eu herio’n effeithiol trwy ddefnyddio meddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Er enghraifft, mae ymweliadau i’r gymuned leol i ymweld â chaffi a chwarae yn y parc, gwibdeithiau i theatrau’r ddinas ar y trên ac i wrando ar storïwr yn y llyfrgell, yn ychwanegu diddordeb i’r cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, mamau a babanod, postmon a’r dyn llaeth yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy’n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali’n flynyddol. Mae’r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i’r plant.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant, yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithio’n effeithiol. Maent yn cyfarch y plant yn gynnes a brwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ac mae’r ymarferwyr yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiynau. Mae’r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio’r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu hysgogi a’u cymell i’r eithaf. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan blant a’u harwain gan oedolion. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae yn enwedig yn yr ardal allanol a’r gerddi.

Anogir y plant yn bwrpasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan i’r adeilad i brofi’r holl feysydd dysgu ac i gydweithio ag eraill ar wahanol fathau o heriau. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Gwneir hyn wrth drafod tyfiant blodau haul yn yr ardd a sut i goginio corn melys a ffa dringo ar ôl eu cynaeafu o’r ardaloedd tyfu.

Mae system gweithiwr allweddol y lleoliad yn effeithiol iawn. Yn benodol, mae’n targedu geirfa a phatrymau iaith y Gymraeg yn llwyddiannus drwy atgyfnerthiadau cyson drwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae safonau’r plant yn y Gymraeg yn cynyddu’n gyflym.
Mae’r holl ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain. Maent wedyn yn trafod yn synhwyrol â’r

plant yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae'r staff yn cofnodi'r gwerthusiadau a'u trafod yn ddyddiol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau a thargedau'r plant yn y dyfodol ac yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn effeithlon. Mae'r holl dystiolaeth yn cyfateb yn briodol i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant yn ystod yr amser trosglwyddo ar ddiwedd y sesiwn ac mae polisi drws agored yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae llyfryn cynhwysfawr o luniau, gwaith ac anodiadau diddorol ar gael i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a'u lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod cynnyrch o'r ardd, megis afalau a llysiau yn rhan o ddiet synhwyrol.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio amserau torfol i ganolbwyntio ar foesau unigolion ac i ystyried teimladau ei gilydd. Drwy hyn, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus ac yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd yn ddyddiol.

Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolyn, ymarfer golchi eu dwylo a dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn cael cyfle i gynorthwyo'n bwrpasol wrth baratoi'r byrbrydau a'r diodydd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Maent hefyd yn compostio'r bwyd yn yr ardal gompostio ger yr ardaloedd tyfu yn yr ardd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau'r proffil Cyfnod Sylfaen.

Felly, mae’r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn bwrpasol. Mae’r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol yn ôl yr angen er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag sy’n bosibl. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a’r arweinydd yn gyfarwydd iawn â’r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio’n briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddefnyddio’r holl feysydd dysgu a’r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus. Mae gwaith dyddiol yr ymarferwyr yn heriol, yn dyner ac yn ofalus.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy’r gweithgareddau dyddiol a’r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae’r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o’r byd yn flynyddol, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn effeithiol.

Defnyddir adnoddau’n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae’r adnoddau helaeth yn hygyrch i’r holl blant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus, trwy rannu dyletswyddau gweithgareddau yn yr ardd wrth balu a chynaeafu llysiau. Mae’r gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a’r cyfleoedd i gyfoethogi’r tasgau yn rhannu adnoddau dysgu’n effeithiol. Mae eu defnydd gan y plant yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu, yn enwedig wrth wneud marciau a threfnu rhifau i gyfateb i nifer penodol o wrthrychau yn yr ardal adeiladu.

Mae’r ardal allanol ysgogol yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo a sied ar gyfer offer adeiladu. Mae’r lleoliad hefyd yn defnyddio’r gerddi’n synhwyrol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol fel helfeydd pryfed ac amffibiaid. Mae’r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn synhwyrol, sef y parc, y pentref a’r trên.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae’n ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau’n llwyddiannus. Mae hi’n rheoli’r cynllunio, yr addysgu a’r dysgu yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgwyliadau’r holl ymarferwyr yn uchel.

Mae’r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell yr ymarferwyr tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae’r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau i’r ddarpariaeth. Er enghraifft, datblygu’r sied a’r offer adeiladu, yr ardaloedd plannu a’r bocs golau i wylio pelydrau x.

Mae’r arweinyddiaeth, sy’n cynnwys aelodau’r pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn cydweithio'n frwdfrydig fel tîm. Mae’r arfer hon yn sicrhau’r defnydd gorau o arbenigedd yr ymarferwyr. Mae’r ymarferwyr yn cael hyfforddiant perthnasol a phriodol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli'n cwrdd yn rheolaidd ac yn cael gwybodaeth am rediad y lleoliad yn gyson gan yr arweinydd. Maent yn darparu cefnogaeth a her buddiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae’r arweinydd a’i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau’r plant a’r ddarpariaeth. Mae’r cydweithio effeithiol a gwybodus o ddydd i ddydd, ynghyd â’r cyfarfodydd staff, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus.

Mae’r hunanarfarnu’n cymryd ystyriaeth bwrpasol o farn ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae’r cyfan hyn o fudd i'r lleoliad i gael darlun llawnach o’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae’r adroddiad hunanarfarnu, sy’n deillio o’r prosesau hyn, yn adnabod cryfderau’r lleoliad yn dda. Fodd bynnag, nid yw’r meysydd i’w datblygu, na’r rhesymau y tu cefn iddynt, yn cael eu hadnabod yn ddigon clir a miniog.

Mae’r arweinydd yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion effeithiol a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau gweithredu. Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â’r camau a nodwyd ar gyfer gwella. Mae’r arweinwyr wedi gwella’r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a chael cyngor gwerthfawr wrth eraill. Mae hyn yn cynnwys dynodi gweithwyr allweddol i grwpiau penodol o blant yn ystod y sesiynau, sy’n effeithio’n gadarn ar fedrau’r plant, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae’r arweinwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae’r cyngor ar sut i wella’r cynllunio wedi effeithio’n dda ar ansawdd y profiadau dysgu a’r addysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n strategol gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant ynghyd â’r ddarpariaeth. Mae effaith y partneriaethau strategol yn gadarn, yn enwedig y cysylltiad cryf iawn rhwng y lleoliad â’r capel sy’n llogi’r adeilad iddynt. Maent yn caniatáu i’r ymarferwyr ddatblygu’r gerddi a chynnal gweithgareddau allanol yn gyson.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau llwyddiannus gyda staff yr ysgol y mae rhan fwyaf y plant yn trosglwyddo iddi. Mae athrawes y dosbarth Meithrin yno yn ymweld â’r lleoliad ac mae hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo plant yn effeithlon. Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac o fudd i’r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n synhwyrol gyda asiantaethau allanol megis yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae’r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi’n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol ddefnyddiol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi’n llwyddiannus mewn digwyddiadau’r ddinas, er enghraifft ymweld â theatrau a gwyliau blynyddol. Yn ychwanegol, mae’r lleoliad yn gweithio’n frwd i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal ymysg y plant.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae’r lleoliad yn gwrando ar eu syniadau ac yn gweithredu newidiadau. Er enghraifft, arddangos lluniau’r ymarferwyr ar yr hysbysfwrdd i greu gwell ymwybyddiaeth o rolau’r holl ymarferwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinyddiaeth yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau’n effeithiol. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant priodol.

Mae’r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at brofiadau dysgu diddorol ac addysgu cadarn. Mae hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n greadigol i gefnogi’r dysgu, fel newid y defnydd o ambell gelficyn i greu pabell neu fwrdd i greu llwyfan ar gyfer gwneud marciau ar ddarnau enfawr o bapur.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant, gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella yn bwrpasol. Ar hyn o bryd, maent yn cynllunio i adfer rhannau o’r adeilad a gwella’r ddarpariaeth o ran adnoddau TGCh. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar y safonau a lles y plant ynghyd â’r ddarpariaeth.

Mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a’r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |